



Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am
y newidiadau y mae arnon ni eisiau eu gwneud



Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o ddogfen ymgynghori Llywodraeth
Cymru 'Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl.'



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd e'n cael ei ysgrifennu mewn **glas cyffredin**. Gallwch chi edrych beth mae'n feddwl ar dudalen 20.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

Darllenwch y ddogfen hon ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Cyfeiriad: Is-adran Addysg Uwch Medrau
Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: HEDConsultationsMailbox@gov.wales



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Cyflwyniad.....	4
Y pedwar newid y mae arnon ni eisiau eu gwneud.....	8
1. Cael un grant.....	8
2. Aseiad o anghenion astudio.....	12
3. Pwy ddylai drefnu Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.....	14
4. Codi ymwybyddiaeth.....	18
Geiriau anodd.....	20

Cyflwyniad



Mae arnon ni eisiau i bawb gael y cyfle i gael **addysg uwch**.

Mae addysg uwch yn digwydd mewn prifysgolion a cholegau Addysg Bellach. Mae'n cynnwys pethau fel:



- Graddau Baglor a graddau Sylfaen
- Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) a Diploma Cenedlaethol Uwch (HND).



Mae'r ddogfen hon ynglŷn â **Lwfansau i Fyfirwyr Anabl**. I'w roi yn fyr byddwn yn defnyddio **Lwfansau**.



Mae'r Lwfansau yn cefnogi pobl anabl i gael addysg uwch. **Grantiau** ydyn nhw.



Grant ydy swm o arian y gallwch chi ei gael nad oes rhaid i chi ei dalu'n ôl.



Mae'r **grantiau** hyn yn helpu myfyrwyr anabl ag unrhyw gostau ychwanegol fydd yn eu hwynebu oherwydd eu bod nhw'n anabl.



Er enghraifft gall y **grant** gael ei ddefnyddio i dalu am:

- Gynorthwywr



- Cyfrifiaduron



- Costau teithio



- Offer arbennig fel meddalwedd darllen sgrîn.



Mae arnon ni eisiau gwneud newidiadau i'r **Lwfansau** er mwyn:

- gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth orau yn cael ei rhoi i fyfyrwyr anabl



- cael cefnogaeth i fyfyrwyr anabl yn gynt



- gwneud y defnydd gorau o'r arian.

I helpu gyda hyn rydyn ni wedi:



- gweithio gyda phartneriaid i weld pa newidiadau y dylen ni eu gwneud



- gofyn i fudiad sy'n cael ei alw'n '**York Consultation**' i weld pa mor dda mae'r **Lwfansau**'n gweithio. Fe ysgrifennon nhw adroddiad ar hyn. Byddwn yn ei alw'n y '**York Report**'.



Mae'r ddogfen hon ynglŷn â'r newidiadau y mae arnon ni eisiau eu gwneud a pham. Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am y newidiadau hyn.



Darllenwch y ddogfen hon. Ac yna llenwch y ffurflen gais i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Y pedwar newid y mae arnon ni eisiau eu gwneud

1. Cael un grant

Ar hyn o bryd y mae pedwar **grant** gwahanol. Dyma'r **grantiau**:



1. **Grant cynorthwywyr anfeddygol.** Mae hyn ar gyfer talu i gynorthwywyr fel tiwtoriaid medrau astudio, mentoriaid arbennig a chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain. Gallwch chi gael i fyny at £22,472 y flwyddyn dan y **grant** hwn.



2. **Grant offer arbenigol.** Mae hyn ar gyfer talu am bethau fel cyfrifiaduron, meddalwedd darllen sgrîn a recordwyr llais. Gallwch chi gael i fyny at £5,657 ar gyfer y cwrs dan y **grant** hwn.



3. **Grant cyffredinol.** Mae hyn ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol arall sy'n eich wynebu oherwydd eich anabledd chi. Mae hyn yn cynnwys arian i dalu am **asesiadau o'ch anghenion astudio** chi. Gallech chi gael i fyny at £1,894 y flwyddyn dan y **grant** hwn.



Byddwch chi'n cael **asesiad o'ch anghenion astudio** chi pan fydd cynghorwr arbenigol yn siarad â chi am eich anabledd chi. A'r ffordd y bydd hyn yn effeithio ar eich astudiaethau chi. Byddan nhw'n dweud wrthyhych chi pa gefnogaeth ychwanegol fydd ei hangen arnoch chi.



4. **Grant** i'ch helpu â'r costau ychwanegol y byddwch chi'n eu hwynebu wrth fynd i brifysgol neu goleg. Er enghraifft, costau teithio.



Mae **grant** ar wahân hefyd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cwrs **ôl-raddedig**.



Mae **ôl-raddedig** yn meddwl cwrs rydych chi'n ei wneud ar ôl eich gradd chi.




Gallwch chi gael i fyny at £20,000 am bob blwyddyn o'ch cwrs **ôl-raddedig** dan y **grant** hwn.

Newid hyn



Dydyn ni ddim yn siŵr a ydyn ni angen cael pedwar **grant** gwahanol.



Buasen ni'n hoffi gwybod beth rydych chi'n feddwl ynglŷn â chael un **grant** sy'n cynnwys popeth yn lle hynny.

Buasen ni'n adio pob swm o arian y gallech chi ei gael dan bob grant. A defnyddio hyn fel y swm newydd mwyaf y gall myfyrwyr ei gael.



Rydyn ni'n meddwl y buasai hyn:

- yn ei gwneud hi'n haws i fyfyrwyr pan fyddan nhw'n ymgeisio am **grant**




- yn ei gwneud hi'n haws i Gyllid Myfyrwyr Cymru rannu'r **grant**



- helpu myfyrwyr i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Oherwydd fyddan nhw ddim yn cael eu cyfyngu gan y swm o arian y byddan nhw'n ei gael dan un **grant** yn unig.



Byddai myfyrwyr **ôl-raddedig** yn gallu cael y **grant** newydd hwn hefyd. Oherwydd rydyn ni'n gwybod nad ydy anghenion myfyrwyr yn newid rhwng cyrsiau.



Dywedodd y '**York Report**' na ddylen ni gyfyngu'r swm y gallwch chi ei gael dan y **Grant cynorthwywr anfeddygol**.



Nid oes angen y swm cyfan ar y rhan fwyaf o fyfyrwyr. Ond mae ar nifer fach o fyfyrwyr angen **mw**y na'r swm cyfan.



Pan fydd hyn yn digwydd mae'n rhaid i golegau a phrifysgolion dalu am y costau ychwanegol.



Petai gennym ni un **grant** sy'n cynnwys popeth fe allech chi ddefnyddio'r swm cyfan ar gyfer cynorthwywr anfeddygol.



Petasech chi'n dal angen mwy o arian buasai'n rhaid i'r myfyriwr a'r coleg neu'r brifysgol ddod o hyd i arian o rywle arall.

2. Aseidiadau o anghenion astudio



Yn awr, y mae pob myfyriwr sy'n gwneud cais am **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl** yn gorfod cael **asesiad o anghenion astudio**.



Mae **asesiad o anghenion astudio** yn costio i fyny at £660. Ac mae'n cymryd tua saith wythnos i'w wneud. Ond mae'n gallu cymryd i fyny at flwyddyn.

Dydyn ni ddim yn siŵr a oes angen **asesiad o anghenion** astudio ar bob myfyriwr oherwydd:



- bod gan fyfyrwyr sydd ag anableddau tebyg yn aml yr un anghenion. Ac yn diweddu gyda'r un gefnogaeth. Felly mae'n hawdd dweud pa gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw cyn **asesiad o anghenion astudio**.



- Does dim angen cefnogaeth ar rai myfyrrwyr. Yr unig beth sydd ei angen arnyn nhw yw offer arbennig. Er enghraifft, dim ond rhewgell fydd ei angen ar fyfyrwr diabetig.



Newid hyn

Rydyn ni'n meddwl y buasai cael pecynnau parod o gefnogaeth yn gallu gweithio.



Buasi'r pecynnau hyn o gefnogaeth yn cael eu creu trwy feddwl am y pethau y mae ar y rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd ag anabledau arbennig eu hangen.



Bydd gan fyfyrwyr yr hawl i ddweud na i'r pecynnau o gefnogaeth. Ac fe allan nhw gael [asesiad o anghenion astudio](#) llawn ar unrhyw adeg os oes arnyn nhw eisiau.



Mae gan brifysgolion a cholegau Gynghorwyr i Bobl Anabl. Rydyn ni'n meddwl y gallen nhw edrych i weld a oes angen [asesiad o anghenion astudio](#) ar fyfyrwr. Neu a fyddai pecyn o gefnogaeth yn gweithio.



Pan fydd angen bydd **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn edrych i wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn hapus â'u pecyn nhw o gefnogaeth.



Rydyn ni'n meddwl y byddai'r newid hwn yn helpu myfyrwyr i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw yn gynt. Ac ni fydden ni'n gwastraffu arian ar [asesiadau o anghenion astudio](#) nad oes eu hangen.

3. Pwy ddylai drefnu'r Lwfansau?

Rydyn ni'n meddwl y gallai prifysgolion a cholegau fod yn gyfrifol am:



- [Aseidiadau o anghenion astudio](#)



- Cymorth anfeddygol.

Aseidiadau o anghenion astudio



Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn mynd i ganolfannau allanol i gael [aseidiadau o anghenion astudio](#).



Dyweddodd y '**York Report**' nad oedd hyn weithiau'n gweithio'n dda i fyfyrwyr. Oherwydd bod cynghorwyr arbennig o ganolfannau y tu allan ddim bob amser yn deall beth y mae cyrsiau yn ei ddisgwyl gan fyfyrwyr.



Dyweddodd y '**York Report**' y dylai canolfannau gael eu cysylltu â phrifysgolion a cholegau yn lle hynny.

Byddai prifysgolion a cholegau wedyn yn gyfrifol am:



- wneud **asesiadau o anghenion astudio**



- y gefnogaeth y mae eu myfyrwyr yn ei gael gan **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**



- gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth ar gyfer rhoi **asesiadau o anghenion astudio** yn gweithio'n dda.



Byddai myfyrwyr yn mynd i'w prifysgol neu eu coleg nhw i gael **asesiadau o anghenion astudio**.



Neu gallen nhw gytuno â'i wneud heb gyfarfod y cyngorwr arbenigol wyneb yn wyneb. Er enghraifft dros 'Skype'. Neu mewn lle sy'n gysylltiedig â'u coleg nhw neu eu prifysgol nhw sy'n agosach at eu cartref nhw.



Rydyn ni'n meddwl y byddai hyn yn well i fyfyrwyr. Oherwydd bydden nhw'n cael eu cefnogaeth o un lle.

Cymorth anfeddygol



Rydyn ni'n credu'n gryf **na** ddylech chi wneud arian o roi cefnogaeth i fyfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol.



Mae arnon ni eisiau i golegau a phrifysgolion fod yn gyfrifol am roi cynorthwywyr anfeddygol i'w myfyrwyr nhw.



Fe allen nhw ddefnyddio darparwyr o'r tu allan i'r brifysgol neu'r coleg. Ond byddai prifysgolion a cholegau yn dal i fod yn gyfrifol am:



- osod cytundebau â'u darparwyr



- gwneud yn siŵr bod y darparwyr yn gweithio'n dda



- gwneud yn siŵr nad yw'r darparwyr yn gwneud arian o roi'r gwasanaeth



- gwneud yn siŵr bod gan bob cynorthwywr yr hyfforddiant a'r profiad iawn. A bod ganddo'r hawl i weithio yn y DU.



Mae gan brifysgolion a cholegau ddyletswydd gofal am eu myfyrwyr nhw. Mae'n **rhaid** iddyn nhw ofalu a chefnogi eu myfyrwyr nhw.



Mae cynorthwywyr anfeddygol yn rhan bwysig o gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr.



Rydyn ni'n meddwl y buasai'n well petai prifysgolion a cholegau yn gyfrifol am gynorthwywyr anfeddygol. Yn y ffordd hon fe allen nhw wneud yn siŵr eu bod yn cwrdd â'u dyletswydd gofal nhw.

4. Codi ymwybyddiaeth



Mae arnon ni eisiau clywed eich syniadau chi ar gyfer codi ymwybyddiaeth o **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**.

Ysgolion a cholegau

Nid yw ysgolion a cholegau bob amser yn cefnogi eu myfyrwyr nhw i gael **Lwfansau** oherwydd:



- nid ydyn nhw'n gwybod amdanyn nhw nac yn llawn ddeall y **Lwfansau**



- does ganddyn nhw ddim digon o amser.



Felly efallai nad yw llawer o fyfyrwyr yn gwybod eu bod nhw'n gallu cael cefnogaeth trwy **Lwfansau**.

Mae prifysgolion a cholegau wedi gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth. Maen nhw wedi:



- ymweld ag ysgolion



- anfon taflenni allan



- dweud wrth staff yr ysgolion y gallan nhw gysylltu â nhw i ofyn cwestiynau.



Ond mae arnon ni angen gwneud mwy o hyd. Dywedodd y '**York Report**' y dylai staff weithio'n agosach gyda staff mewn addysg.



Gweithwyr iechedd proffesiynol

Nid yw rhai gweithwyr iechedd proffesiynol, fel meddyg, yn gwybod digon am **Lwfansau**.



Felly mae myfyrwyr wedi'i chael hi'n anodd iawn i gael y prawf sydd eu hangen arnyn nhw gan eu meddyg nhw i gael Lwfansau. Gall gostio llawer a chynhyrfu'r myfyrwyr.



Mae arnon ni angen gwneud mwy ynghylch hyn. Rydyn ni'n barod yn gwneud rhai pethau sy'n cael eu hawgrymu yn y '**York Report**'. Er enghraifft gwneud fideo i helpu myfyrwyr wneud cais am Lwfansau. Ond fe hoffen ni wybod beth rydych chi'n ei feddwl hefyd.

Geiriau anodd

Asesiad o anghenion astudio

Byddwch chi'n cael asesiad o'ch anghenion astudio chi pan fydd cynghorwr arbenigol yn siarad â chi am eich anabledd. A'r ffordd y bydd hyn yn gallu effeithio ar eich astudiaethau chi. Byddan nhw'n dweud wrthyh chi pa gefnogaeth ychwanegol fydd ei hangen arnoch chi.

Ôl-raddedig

Mae ôl-raddedig yn meddwl cwrs rydych chi'n ei wneud ar ôl eich gradd chi.

Grant

Grant ydy swm o arian y gallwch chi ei gael nad oes rhaid i chi ei dalu'n ôl.